PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2017

PRESENNOL:	**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**
	Y Cynghorydd Robert Ll Jones
	Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned
	Mr Gordon Warren
	Aelod Annibynnol
	Dr Haydn Edwards
WRTH LAW:	Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Swyddog Pwyllgor (MEH)
HEFYD YN BRESENNOL:	Neb
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorwyr G O Jones, R Meirion Jones

1 ETHOL CADEIRYDD

Etholwyd Dr Haydn Edwards yn Gadeirydd y cyfarfod hwn yn unig.

2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Roedd y Cynghorydd G O Jones wedi datgan diddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 5 ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Fe ddatganodd Dr H Edwards hefyd ddiddordeb personol yn Eitem 5.

3 COFNODION CYFARFOD

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2017.

4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod :-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y posibilrwydd y gallai gwybodaeth eithriedig gael ei datgelu fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

5 TYNNU RHESTR FER O YMGEISWYR AR GYFER RÔL AELOD ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU A PHENDERFYNU AR Y BROSES GYFWELD

Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro'r broses ddethol statudol ar gyfer penodi i'r sedd wag ar y Pwyllgor Safonau.

Trafododd y Panel y ceisiadau a dderbyniwyd yn fanwl a hynny'n unol â'r broses ar gyfer tynnu rhestr fer a'r meini prawf a oedd wedi ei hamlinellu yn yr adroddiad i'r Panel.

PENDERFYNWYD bod yr ymgeiswyr a roddwyd ar y rhestr fer yn cael eu cyfweld ar 27 Tachwedd, 2017 am 3.00 p.m.

DR HAYDN EDWARDS
CADEIRYDD